Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru
Higher Education Funding Council for Wales

hefcw

# Datganiad i'r wasg

**Dyddiad:** 10 Gorffennaf 2008

**Teitl**: Prifysgolion a busnes law yn llaw

Mae prifysgolion a cholegau Cymru yn parhau i hybu'r economi yn gryfach fyth, yn ôl ffigyrau ar gyfer y DU a gyhoeddir heddiw.

Mae Sefydliadau Addysg Uwch (SAUau) nid yn unig yn gweithredu fel magned i fuddsoddi mewnol a doniau rhyngwladol, maent hefyd yn cynhyrchu incwm yng Nghymru a'i chymunedau.

Dengys ffigyrau newydd ar gyfer y flwyddyn academaidd 2006/07 fod prifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i wella ar draws ystod o ddangosyddion cyfraniad cymdeithasol ac economaidd, gan ddefnyddio eu gwybodaeth i greu cwmnïau newydd, gan gynnig gwasanaethau ymgynghori neu hyfforddi a gwneud gwaith ymchwil drwy ddefnyddio ariannu cyhoeddus a phreifat.

Mae'r ffigyrau yn cael eu cyhoeddi wrth i CCAUC ddychwelyd ar 10 Orffennaf i roi mwy o dystiolaeth i ymchwiliad Pwyllgor Menter a Dysgu Cynulliad Cenedlaethol Cymru i gyfraniad economaidd addysg uwch.

Dywedodd y Gweinidog Addysg Jane Hutt: "Mae'r sector addysg uwch yng Nghymru yn gwneud cyfraniad hanfodol i economi Cymru. Mae ein prifysgolion a'n colegau yn cyflawni rhagoriaeth yn gyson mewn llawer o'u gweithgareddau, gan wasanaethu eu cymunedau lleol yn ogystal â pherfformio ar raddfa genedlaethol a byd-eang.. Rwyf wrth

fy modd fod sefydliadau addysg uwch Cymru yn parhau i wneud yn well na'r disgwyliadau ac rwy'n dymuno llwyddiant parhaus i'r sector."

Dywedodd yr Athro Philip Gummett, Prif Weithredwr CCAUC: "Rydym wedi gweld twf rhyfeddol dros y saith mlynedd diwethaf, gyda phrifysgolion a cholegau yng Nghymru yn parhau i wneud yn well na'r disgwyliadau am sector o'i faint. Fodd bynnag, ni ddylem gael ein synnu gan eu cyfraniadau at yr economi a chymdeithas fel hyn. Er enghraifft, rhoedd Cymru yn un o'r ardaloedd asiantaeth ddatblygu ranbarthol gyntaf yn y DU lle roedd SAUau yn cydweithio â'r Cynghorau Sgiliau Sector, a wnaeth arwain at gydweithio o'r radd flaenaf yn y DU.

"Mae llawer o sefydliadau addysg uwch hefyd wedi gwneud gwaith sylweddol gyda busnesau uchel eu proffil. Byddwn yn dal ati i annog prifysgolion a cholegau i gydweithredu i helpu i greu mentrau ar ddigon o raddfa ac ehangder digonol."

Mae addysg uwch yng Nghymru yn cyfrif am tua 5% o gyfanswm y DU, ac eto:

- Yn y flwyddyn academaidd 2006/07, roedd Cymru yn cyfrif am 10.1% o'r incwm o waith ymchwil cydweithredol a oedd yn cynnwys arian cyhoeddus ac arian gan fusnes, gan berfformio'n well na 7 allan o 9 asiantaeth datblygu rhanbarthol (ADRh) yn Lloegr. Mae creu incwm yng Nghymru wedi cynyddu yn y maes hwn o fwy na 77% er 2001/03 ac yn 2006/07 cyrhaeddodd dros £67.7 miliwn.

- Mae Cymru yn cyfrif am 7.3% o incwm y DU o gontractau ymgynghori gyda busnesau bach a chanolig (BBaChau) a 6.3% o gyfanswm contractau'r DU. Yn 2001/02, fe wnaeth SAUau Cymru ddelio â 780 o gontractau ymgynghori; yn 2006/07, fe wnaethant ddelio â 3,658.

- Mae gan Gymru 6.4% o bortffolio cronnol sector addysg uwch y DU o batentau gweithredol, gan ragori eto ar holl ADRh Lloegr, ac eithrio Llundain a'r De Ddwyrain. Mae gweithgaredd patentau Cymru wedi cynyddu'n sylweddol er 2001/02.

- Yn 2006/07, cynhyrchodd Cymru 13.1% o bob cwmni deillio addysg uwch a gweithgaredd dechrau busnes gan staff, a 10.7% o'r holl gwmnïau a ddechreuwyd gan raddedigion yn y DU. Er 2001/02, mae nifer y cwmnïau deillio a'r cwmnïau a ddechreuwyd gan staff sydd wedi goroesi am fwy na thair blynedd wedi mwy na dyblu, gydag amcangyfrif trosiant pob cwmni gweithredol bellach yn cyrraedd dros £41.8 miliwn o gymharu ag ychydig dros £22 miliwn yn 2001/02.

Mae'r seithfed adroddiad arolwg *Addysg Uwch – Rhyngweithio rhwng Busnes a'r Gymuned (HE-BCI)* yn gyhoeddiad ar y cyd rhwng yr Adran Arloesedd, Prifysgolion a Sgiliau (DIUS), a'r cyrff ariannu addysg uwch yng Nghymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon.

**Nodiadau:**

Bydd yr adroddiad llawn ar gael ar wefan Cyngor Cyllido Addysg Uwch Lloegr: www.hefce.ac.uk/ o dan 'publications'.

**3. CCAUC**

Corff sy'n cael ei Noddi gan y Cynulliad yw **Cyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru** (CCAUC) sy'n gyfrifol am weinyddu cyllid y mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn trefnu ei fod ar gael i gefnogi:

- addysg mewn sefydliadau addysg uwch (SAUau);
- ymchwil a gynhelir gan SAUau; a
- chyrsiau addysg uwch mewn colegau addysg bellach.

Mae CCAUC hefyd yn gyfrifol am achredu darparwyr hyfforddiant cychwynnol i athrawon ar gyfer athrawon ysgol ac yn comisiynu ymchwil i wella safonau athrawon a hyfforddiant athrawon.

Yn ogystal â chyfrifoldebau cyllid, mae CCAUC yn rhoi cyngor i Lywodraeth Cynulliad Cymru ar anghenion cyllid, uchelgeisiau a phryderon y sector addysg uwch yng Nghymru.